Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO
Dydd Llun y 27ain o Ebrill 2020 am 11.00am (cyfarfod Skype)

Presennol:

Tegryn Jones	Prif Weithredwr, PCNPA (Cadeirydd)
Sue Leonard	Prif Swyddog, PAVS (Is-gadeirydd)
Ian Westley	Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Jonathan Feild	Cyflogwr a Rheolwr Partneriaethau, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Andrea Winterton	Rheolwr Gweithrediadau De Cymru Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru
Sarah Jennings (SJ)	Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, BIP Hywel Dda
Anna Bird	Pennaeth Datblygu Partneriaethau Strategol, BIP Hywel Dda
Dr Steven Jones (SPJ)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol CSP
Iwan Thomas	Prif Weithredwr, PLANED
Dr Barry Walters	Prifathro, Coleg Sir Benfro
Elwyn Williams	Is-gadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Maria Battle	Cadeirydd, BIP Hywel Dda
Cris Tomos	Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Gymraeg
Kevin Jones	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Alison Perry	Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Martyn Palfreman	
Anna Malloy	Porthladd Aberdaugleddau

Cefnogaeth/Ysgrifenyddiaeth

Nick Evans	Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP
Lynne Richards	Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP

Ymddiheuriadau

Ros Jervis	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, BIP Hywel Dda
Yr Uwcharolygydd Ross Evans	Heddlu Dyfed Powys

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00a.m.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y rhai a restrwyd uchod.

2. Y diweddaraf gan asiantaethau sy'n bartneriaid

Gwahoddwyd pob asiantaeth oedd yn bartner i roi diweddariad ar ei sefyllfa bresennol a'i hymateb i'r pandemig.

DRAFT

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Nododd Sarah Jennings fod y Bwrdd Iechyd wedi cael ei baratoi ar gyfer yr hyn oedd wedi ei gynllunio o ran nifer yr achosion o Covid-19 a bod cyfnod y cyfyngiadau wedi gwneud gwahaniaeth i nifer yr achosion a gâi eu gweld. Bu llai o achosion a marwolaethau hyd yma nag y disgwylid yn gynharach, er y byddai'n rhaid monitro hyn yn ofalus unwaith y câi'r cyfyngiadau eu codi/llacio. Roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu ymdopi â lefel bresennol yr achosion ac roedd ganddynt ddiddordeb mewn gwybod sut y gallai partneriaid Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i gefnogi ei gilydd, ynghyd â'r 3ydd Sector, elusennau ac yn y blaen, yn ystod y cyfnod o adferiad. Nododd SJ hefyd lwyddiant gweithio mewn tîm wrth weithio gyda CSP ar adeiladu'r ysbyty maes yn Bluestone.

Cyngor Sir Penfro

Ailadroddodd Ian Westley sylwadau SJ ynghylch y gwersi a ddysgwyd ynglŷn â gweithio mewn tîm yn dilyn adeiladu'r ysbyty maes yn Bluestone, a bod y sefyllfa bresennol wedi tynnu sylw at gyfleoedd i weithio gyda'n gilydd mewn ffordd wahanol yn y dyfodol. Nododd fod yr Arweinydd wedi cael ei daro gan gyflymder y datblygiad yn Bluestone a bod hyn wedi peri iddo ystyried sut y gallem gael heibio biwrocratiaeth a 'thâp coch' dianghenraid wrth weithio gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Nododd IW fod astudiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Goleg Kings, Llundain wedi edrych ar gategoreiddio unigolion fel rhai sydd naill ai'n derbyn, yn dioddef neu'n gwrthwynebu y sefyllfa bresennol o gyfyngiadau a bod y canlyniadau yn awgrymu bod 48% yn derbyn, 44% yn dioddef ac 8% yn gwrthwynebu. Roedd yna rai arwyddion yn rhai ardaloedd o'r Sir bod y rhif o 'wrthwynebwyr' yn fwy na'r ffigwr a gyhoeddwyd yn yr astudiaeth.

Wrth edrych ymlaen at adferiad, roedd CSP wedi dechrau edrych ar gynllun adfer yn cynnwys pedair rhan; Adferiad mewnol (CSP); y Gymuned; Pobl Ifanc ac Addysg; a Busnes a'r Economi. Awgrymodd y byddai rhan sylweddol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w chwarae yn y cyfnod o adferiad.

Nododd Steven Jones hefyd fod cynllun cyflawni rhaglen wrthi'n cael ei ddatblygu ac y byddai fersiwn gryno o hwn yn cael ei anfon at y partneriaid unwaith y byddai ar gael. Gofynnodd i Nick Evans roi diweddariad byr ar swyddogaeth y Grŵp Ymgynghori Annibynnol. **SPJ**

Esboniodd NE fod y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiol rwydweithiau a chymunedau ac mai eu rôl oedd bwydo eu safbwyntiau i mewn ar gynllunio a rheoli'r sefyllfa bresennol a siapio'r ymateb. Rhai enghreifftiau o'r grwpiau oedd yn cymryd rhan oedd grŵp pobl hŷn, cynrychiolwyr plant a phobl ifanc, elusennau iechyd meddwl, y lluoedd arfog, PAVS ac yn y blaen.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rhoddodd Kevin Jones ddiweddariad byr o safbwynt y Gwasanaeth Tân;

- Roedd gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn parhau gyda'r staff yn defnyddio Offer Diogelwch Personol (PPE) i'w hamddiffyn eu hunain a chwsmeriaid. Roedd

DRAFT

pecyn wedi'i baratoi a fyddai ar gael ar yr Hwb ynghylch diogelwch tân yn y cartref, oherwydd y nifer fawr o blant sydd gartref ar hyn o bryd yn hytrach nag yn yr ysgol.

- Bu cynnydd mewn tanau glaswellt, yn ardaloedd awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Powys a Cheredigion yn bennaf, gyda rhai ffermwyr yn llosgi y tu allan i ddyddiad cau yr 31ain o Fawrth. Gofynnwyd i awdurdodau lleol atgoffa ffermwyr am y dyddiad cau hwn pan fyddent yn ymwneud â hwy mewn unrhyw ffordd.

- Bu cynnydd yn nifer y galwadau ynghylch tanau gwastraff domestig naill ai oherwydd nad oedd gwastraff yn cael ei gasglu neu fod Safleoedd Amwynder Dinesig ar gau.

Nododd SPJ fod CSP wedi derbyn 26 o gwynion yn ystod y mis ynglŷn â thanau gwastraff domestig, i fyny o tua 4 yn 2019. Roedd mynediad i Safleoedd Amwynder Dinesig yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

- Roedd nifer y damweiniau o ganlyniad i oryrru wedi cynyddu.

- Roedd nifer o ddiffoddwyr tân wedi gwirfoddoli i yrru ambiwlansys ac roeddent yn derbyn hyfforddiant.

- Roedd cyngor diogelwch tân i fusnesau yn cael ei ddarparu ac roedd y Gwasanaeth Tân yn cydweithio'n agos â'r ysbytai maes a sefydlwyd ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Roedd KJ yn cytuno â barn IW fod yna gyfle i gael gwared â gormodedd o fiwrocratiaeth a ‘thâp coch’ yn y dyfodol a bod cyfleoedd hefyd i feddwl am gyflwyno mwy o arferion gweithio o bell wrth fynd ymlaen. Nododd hefyd y bu cynnydd mewn ceisiadau rhyddid gwybodaeth a byddai diddordeb ganddo i wybod a oedd partneriaid eraill wedi profi hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Dywedodd Andrea Winterton fod mwyafrif staff CNC yn gweithio gartref ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd staff Coedwigaeth yn gweithio i sicrhau bod y cyflenwad o bren yn parhau ac roedd gwaith yn mynd rhagddo hefyd i sicrhau bod caniatâd a thrwyddedau yn cael eu rhoi. Caewyd gwasanaethau labordy CNC oherwydd problemau ymbellhau cymdeithasol, ac felly roedd cryn dipyn yn llai o fonitro a gwasanaethau dadansoddi. Câi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth eu trin fel arfer heb unrhyw gynnydd arwyddocaol mewn ceisiadau. Fodd bynnag, gofynnid i ymholwyr fod yn amyneddgar gydag ymatebion gan nad oedd rhai ffeiliau ar gael i'r rhai oedd yn gweithio gartref.

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)

Dywedodd Sue Leonard fod staff PAVS hefyd yn gweithio gartref a bod hyn yn effeithiol ar y cyfan. Roedd PAVS yn gweithio'n agos gyda CSP ar y Canolbwynt Cymunedol ac roedd y Cysylltwyr Cymunedol yn ymdrin ag atgyfeiriadau.

Cafwyd cefnogaeth eithriadol gan gymunedau ac o fewn dyddiau i gyhoeddi'r cyfyngiadau, roedd 77 o grwpiau hunan-drefnu wedi codi o amgylch y Sir dan arweiniad dinasyddion, i helpu gyda thasgau fel siopa, mynd â chŵn am dro a chasglu presgripsiynau. Roedd 60 o'r rhain bellach wedi eu cofrestru gyda’r Rhwydwaith Cymorth

DRAFT

Cymunedol dan arweiniad Sir Benfro ac wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant a chefnogaeth.

Hyd yma cafwyd mwy o gynigion o gymorth nag oedd eu hangen ac roedd PAVS yn cael trafferth i osod gwirfoddolwyr. Soniodd SJ fod hyn wedi bod yn wir hefyd am Hywel Dda o ran rhoddion a chynigion cymorth, a byddai'n trafod hyn â SL y tu allan i'r cyfarfod. Dywedodd SL ei bod yn cytuno â sylwadau cynharach ar y modd y gallai'r sefyllfa roi cyfle i'r BGC gydweithio ar adferiad ac ar feithrin gwytnwch cymunedol.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Nododd Jonathan Field fod yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), erbyn yr 16eg o Ebrill, wedi derbyn 1.5 miliwn o hawliadau Credyd Cynhwysol a bod 10,000 o staff wedi cael eu hadleoli i ateb y galw hwn. Roedd canolbwynt lles a Strategaeth Gyfathrebu wedi'u datblygu ar gyfer y staff. Talwyd 93% o'r hawliadau hyd yn hyn yn llawn ac yn brydlon. O'r 1.5 miliwn o hawliadau, roedd 360 mil wedi gwneud cais am flaendaliadau. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i roi gwybodaeth reoli ystyrlon i ALlau am nifer yr hawlwyr CC ym mhob Sir. Roedd Canolfannau Gwaith ar gau yn dechnegol ond roeddent ar gael i gwsmeriaid agored i niwed.

Fel y nodwyd o'r blaen gan bartneriaid eraill, yr oedd llawer o fiwrocratiaeth wedi'i thynnu allan o'r broses hawlio CC er mwyn cael hawliadau ar waith yn gyflym. Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu adnoddau i helpu cwsmeriaid a chyflogwyr a gofynnwyd i bartneriaid rannu'r rhain â'u rhwydweithiau fel y bo'n briodol. Byddai Dolenni Cyswllt yn cael eu dosbarthu yn dilyn y cyfarfod. Wrth edrych tuag at adferiad, yr arwyddion oedd bod y farchnad lafur yn ceisio hyrwyddo swyddi gweithwyr allweddol. **LR**

Coleg Sir Benfro

Dywedodd BW fod y coleg wedi cau ar y 23ain o Fawrth ond ei fod yn awr wedi ailagor yn rhannol i ddarparu sesiynau cynefino a hyfforddiant i wirfoddolwyr y GIG. Roedd peth gwaith adeiladu, oedd wedi ei gynllunio yn gynharach, hefyd yn mynd rhagddo. Darperid gofal bugeiliol yn ffurf cyswllt rhithiol 1:1 i fyfyrwyr agored i niwed a chysylltwyd â 451 hyd yn hyn. Roedd LIC wedi bod yn gefnogol iawn tuag at y sector Addysg Bellach o ran cyllid, ond disgwylid toriadau mewn dysgu seiliedig ar waith wrth symud ymlaen. Roedd gwybodaeth bellach hefyd wedi dod ar gael ynghylch y modd y câi rhai cymwysterau eu graddio.

Porthladd Aberdaugleddau

Dywedodd AM fod y rhan fwyaf o'r staff yn gweithio gartref ond bod y Porthladd yn gweithio fel arfer gyda rhai newidiadau i sifftiau er mwyn darparu ar gyfer gofynion ymbellhau cymdeithasol. Roedd nifer o brosiectau wedi'u gohirio e.e. Prosiect y Glannau yn Aberdaugleddau.

PLANED

Nododd Iwan Thomas fod PLANED wedi bod yn cyfrannu at drafodaethau'r Grŵp Cynghori Annibynnol a'u bod yn gweithio gyda chymunedau mewn gwahanol ffyrdd i ddatblygu gwaith a oedd eisoes yn cael ei wneud cyn i'r cyfyngiadau ddod i rym. Roedd rhai pryderon mewn cymunedau ynghylch beth fyddai'n digwydd ar ôl y cyfnod cloi, yn enwedig o ran 'cryfder' Sir Benfro yn troi yn risg ac ynglŷn â'r ofn y byddai mewnlifiad o ymwelwyr yn dod ag achosion o Covid-19.

DRAFT

Roedd sgyrsiau wedi'u cynnal gyda rhai o'r bobl yn y rhwydwaith amaethyddol o ran cadwyni cyflenwi a sicrhau digon o weithwyr i gynaeafu bwyd. Byddai hefyd angen edrych ar y defnydd a wneir o adeiladau cymunedol yn y dyfodol a sut y byddent yn gweithredu. Dywedodd IT fod PLANED yn parhau i gynnig cyfeiriad a chymorth i'r rhai oedd ei angen.

Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Dywedodd Alison Perry fod gwasanaethau i ddioddefwyr yn rhedeg fel arfer ond yn rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Câi cyfarfodydd cyfiawnder troseddol hefyd eu cynnal dros y we. Roedd nifer o risgiau a phroblemau yn gysylltiedig â rhyddhau carcharorion yn gynnar ac atal llysoedd, ond roeddent yn ymdopi â'r rhain ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, rhagwelid y byddai angen mwy o gymorth ar gyfer pobl mewn profedigaeth a rhai â phroblemau iechyd meddwl.

Heddlu Dyfed Powys (darparwyd drwy'r e-bost)

- Mae'r heddlu yn y sefyllfa wyrdd yn gyffredinol gyda rhai swyddogaethau yn ambr (o ran yr adnoddau sydd ar gael).
- Mae tua 10% o'r staff yn gweithio gartref ar hyn o bryd am amryw resymau.
- Mae rhai gwrandawiadau llys yn cael eu clywed o bell yng ngorsaf yr heddlu dros Skype.
- Ymddengys bod ymgyrch 'Dovecote' yn gweithio – gan sicrhau teithio hanfodol yn unig (rwyf yn ddiolchgar am gymorth CSP gyda'r ymgyrch hon).
- Mae troseddu yn y sir i lawr o tua 25% - tybir y gellir yn ddiogel gysylltu hyn â diffyg economi'r nos ac ymbellhau cymdeithasol.
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch y rota ymateb yn dal yn ddilys – bydd Aberdaugleddau a Dinbych-y-pysgod yn dychwelyd i'r gwasanaeth 24 awr penodol o 28/06.
- Mae digwyddiadau Iechyd Meddwl a Cham-Drin Domestig yn cael eu monitro'n ofalus.
- Mae ymosodiadau ar y staff wedi codi ond nid oes unrhyw dueddiadau amlwg eraill o ran troseddau ar hyn o bryd.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

Dywedodd Tegryn Jones fod yr holl lwybrau wedi'u cau a bod oddeutu 50% o'r staff yn gweithio gartref. Byddai staff cynnal a chadw yn gweithio yn ôl yr arfer yn fuan gyda mesurau ymbellhau cymdeithasol yn eu lle yn ôl y gofyn.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Nododd Martyn Palfreman fod seilwaith y bartneriaeth wedi gwneud ymateb cyflym yn bosibl o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd LIC wedi caniatáu llacio'r gofynion ar ffrydiau ariannu er mwyn ailgyfeirio arian i gefnogi'r ymateb i fynd i'r afael â'r feirws. Roedd hyn wedi cynnwys cymorth i adeiladu ysbytai maes a chât trafodaethau eu cynnal â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ynglŷn â'r modd y gellid adennill y cyllid hwn.

Roedd ffrydiau'r prosiect Gofal a Chysylltu Cymunedau drwy Dechnoleg wedi gallu darparu tabledi electronig i'r rheiny oedd yn ynysu'n gymdeithasol ac yn cysgodi ac roedd y defnydd o'r platfform digidol i gydweddu pobl â rolau gwirfoddoli wedi cyflymu.

DRAFT

Diolchodd TJ i'r partneriaid am eu diweddariadau a gwahoddodd hwy i dynnu sylw at unrhyw beth y credent y gallai'r BGC fwrw ymlaen ag ef yn y tymor byr. Cyfeiriodd IW yn ôl at ei sylwadau cynharach ynghylch biwrocratiaeth ac a fyddai angen ailgyflwyno'r holl brosesau sydd ar waith ar hyn o bryd ar ôl Covid. Byddai'n bwysig ystyried faint o fiwrocratiaeth 'normal' y gellid ei dileu, er mwyn arbed arian ac amser ac felly darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.

3. Swyddogaeth y BGC yn yr adferiad

Yna gwahoddodd TJ y partneriaid i rannu eu syniadau ynghylch y rôl y dylai'r BGC ei chwarae yn ystod y cyfnod o gynllunio adferiad.

Nododd IW mai dechrau cael ei ddatblygu yr oedd y cynllun a grybwyllodd yn gynharach ond y byddai'n cael ei rannu â'r BGC cyn gynted â phosibl. Nododd hefyd werth cynnwys cyfraniad gan y rheiny nad oeddent yn perthyn i sefydliadau partner y BGC yn y cyfnod hwn, megis arweinwyr twristiaeth a busnes yn y Sir.

Dywedodd Maria Battle fod cynllun adfer drafft wedi cael ei gytuno gan Orchymyn Aur Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac y byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Gellid rhannu hyn gyda phartneriaid; fodd bynnag, roedd yn ddogfen lefel uchel iawn ar hyn o bryd a byddai angen adeiladu arni.

Nododd SL fod PAVS wedi cynllunio o'r blaen i gynnal pum canolfan weithredu leol ond ar hyn o bryd roedd yna 60 ar gael, fel yr oedd hi wedi crybwyll yn gynharach yn y cyfarfod. Byddai'r her a'r cyfle felly yn ymwneud â chadw diddordeb y grwpiau hyn a'u cael i ymgysylltu â'r 'dyfodol newydd' ar gyfer Sir Benfro. Dywedodd hefyd fod sylw wedi'i roi yn y gorffennol i'r sgiliau a'r profiad y gallai pobl hŷn eu cyfrannu, ond bod llawer o bobl dros eu 70 a'r rhai a oedd yn cysgodi erbyn hyn yn fwy nerfus oherwydd y cyfeirid atynt fel pobl agored i niwed. Awgrymodd MB y byddai'n bwysig rhoi cefnogaeth arloesol i bobl agored i niwed wrth iddynt symud ymlaen gan y gallent fod wedi'u hynysu am gyfnod hwy na rhannau eraill o'r boblogaeth.

O ran grwpiau cymunedol, dywedodd Cris Tomos a Sue Leonard y byddai'n bwysig annog pobl yn y grwpiau hyn i barhau yn eu rolau a'u hehangu wrth symud ymlaen i rôl ddemocrataidd fwy strwythuredig fel cynghorwyr cymuned, tref neu sir hyd yn oed a pharhau continwwm dinasyddiaeth weithredol.

Gofynnodd AW a fyddai'r blaenoriaethau yn y Cynllun Llesiant yn cael eu hadolygu. Atebodd NE fod y sefyllfa bresennol, fel y nodwyd eisoes, yn rhoi cyfle i'r BGC gefnogi adferiad Sir Benfro, gan mai dyma fyddai'r her bwysicaf fyddai'n wynebu'r Sir am y ddwy flynedd nesaf. Byddai sefydliadau mwy o faint yn drafftio eu cynlluniau adfer dros yr ychydig fisoedd nesaf a chytunwyd y byddai'r BGC yn ceisio datblygu ymateb cyfunol oddi wrth y rhain.

4. Llythyr gan Lywodraeth Cymru

Soniodd TJ yn fyr am y llythyr a dderbyniwyd gan LIC ynghylch dileu cyllid rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Eglurodd NE mai'r cynllun oedd defnyddio'r cyllid hwn i gyflogi unigolyn am 12 mis i weithio ochr yn ochr â'r datblygwr meddalwedd ar y prosiect digidol rhanbarthol. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn effeithio ar y ffrwd waith hon wrth symud ymlaen.

DRAFT

Nododd IW fod cael gwared ar y cyllid yn ymateb niweidiol o ystyried rôl bwysig Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y broses o gynllunio adferiad ac y dylid anfon ateb i Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at hyn. Cytunodd TJ i gysylltu â chadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn y rhanbarth er mwyn symud hyn ymlaen. **NE**

Nododd TJ hefyd fod Natalie Pearson o Lywodraeth Cymru wedi ymddiswyddo o'i rôl yn cefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'i fod ef yn ddiolchgar am y cymorth yr oedd hi wedi'i roi ac y byddai'n cysylltu â hi er mwyn diolch iddi ar ran y BGC. Cafodd Ann Owen, un o gynrychiolwyr newydd LIC, ei phenodi. **TJ**

Cytunai'r partneriaid ei bod wedi bod yn fuddiol i bartneriaid rannu profiadau a gwybodaeth am sut yr oeddent wedi delio â'r cyfnod cynllunio, y materion cyfredol a rôl y BGC yn y dyfodol. Fel y cytunwyd yn flaenorol, dylid rhannu cynlluniau adfer pan fyddant ar gael, a châi trafodaeth BGC arall ei threfnu ynglŷn â rôl y BGC yn dwyn y rhain ynghyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20p.m. **NE/LR**

DRAFT